Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Tachwedd 10, 2015 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams a Carwyn Evans. Hefyd Peredur Jenkins a Henry Edwards

1. Ymddiheuriadau: Elfed ap Gomer a Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag bil, Eitem 5.f.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 13, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 13, 2015

Eitem 4. Mae Mr Gethin Corps wedi datgysylltu'r toiledau.

5. Materion Ariannol

a. Bil (19/10/2015) am £43.20 oddi wrth Elfed ap Gomer am gostau teithio i Bontrhydfendigaid i gynrychioli'r Cyngor yng Nghynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru 2015.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Derbyniwyd (19/10/2015) siec am £175.00 oddi wrth Glyn Rees & Son, at daliad claddedigaeth y diweddar Lili Pugh Jones. Claddu gweddillion o'r amlosgfa.

c. Bil (18/10/2015) am £60.00 oddi wrth Paul Cook i agor bedd at gladdu gweddillion ar 14/10/2015.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Derbyniwyd (22/10/2015) taliad am £85.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i ail osod beddfaen ar y diweddar Lili Pugh Jones.

d. Derbyniwyd (22/10/2015) taliad am £85.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i ail osod beddfaen ar y diweddar Joan Edwards.

dd. Balans yn y banc ar 29 Hydref, 2015: £9,049.68.

e. Bil (26/10/2015) am £17.00 oddi wrth R.B.L. Dolgellau am 'type B wreath'.

Penderfynwyd talu'r bil.

f. Bil (Tachwedd 2015) am £576.00 oddi wrth Mr J.Ll. Williams am glirio llwybrau yn ardal Bontddu yn 2015.

Penderfynwyd talu'r bil.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/65/T328. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Adeiladu estyniad ochr deulawr a garej arwahan. Heulfryn, Llanelltyd.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/10/2015) oddi wrth Y Groes Goch Brydeinig. Maent eisiau cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Llythyr (13/10/2015) oddi wrth Rhwydwaith Busnes Gwynedd yn rhoi gwybod maent yn ymdrechu i wrthwynebu bwriad Cyngor Gwynedd i gau eu hadrannau sy'n cefnogi twristiaeth a busnesau oherwydd niwed gwneith i economi'r sir.

c. Copi o 'Newyddlen - Dalgylch y Gader' oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd.

Rhoddwyd copi o'r newyddlen i'r aelodau.

ch. Llythyr (22/10/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau:

i. Datganoli Gwasanaethau (Saesneg) yn Llyfrgell Rudd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Tachwedd 10 am 6:30yh. Y gost fydd £35 y person.

ii. Cyllid Llywodraeth Leol (Saesneg) yn Theatr y Ddraig, Abermaw ar ddydd Mercher, Tachwedd 18 am 6:30yh. Y gost fydd £35 y person.

d. Llythyr (28.10.2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Pafiliwn Criced, Dolgellau ar Tachwedd 25 2015 am 7.00yh. Bydd Swyddog o gwmni Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn bresennol yn rhoi cyflwyniad ar waith y cwmni. Amgáu mae cofnodion cyfarfod y pwyllgor oedd ar 23/09/2015.

dd. Llythyr (Hydref 2015) oddi wrth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. Maent eisiau gwybodaeth am lefydd mae pobl yn eu defnyddio i gysgu ar y strydoedd.

e. E-bost (4/11/2015) oddi wrth Gethin Williams yn rhoi gwybod mae Barmouth Publicity Association eisiau gwybod am lefydd sydd yn rhoi gwasanaethau fel siopau, llefydd sy'n rhoi prydau bwyd, llety, llefydd o ddiddordeb yn y gymuned. Maent angen eu cynnwys yn Barmouth Town Guide.

Penderfynwyd i Gethin Williams rhoi'r wybodaeth.

f. Dogfen drafft (Tachwedd 2015) oddi wrth Ymgynghoriad Polisi Trwyddedu, Cyngor Gwynedd yn ymwneud a 'Datganiad o Bolisi Trwyddedu' - Rhagfyr 2015-Rhagfyr 2020. Mae polisi presennol i Rhagfyr 2015 yn dod i ben ac mae wedi ei diweddaru sydd yn golygu ymgynghoriad ffurfiol gyda sefydliadau perthnasol.

ff. Llythyr (3/11/2015) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Gyda'r gwaith datblygu sy'n cael ei wneud yn Ysgol Llanelltyd penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Eiddo, Cyngor Gwynedd i gadw'r fynedfa a'r 'compound' mae'r contractwyr am ei wneud i hwyluso gwaith adeiladu. Gyda'r gwaith wedi'i gwblhau bydd y rhain yn cael eu defnyddio gan staff yr ysgol a'r cyhoedd.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo dail ar ffordd Cwm Hirgwm.

b. Mae Llinos Williams yn dymuno ymddiswyddo ar ddechrau'r flwyddyn newydd fel cynrychiolydd y Cyngor ar Pwyllgor Neuadd Bentref Llanelltyd

c. Mae hanner y fainc yn lloches bws wrth Bro Cymer wedi torri. Penderfynwyd gofyn i W.R. Evans & Son, Ymgymerir a Gwaith Dur i dynnu'r darn fainc sydd wedi torri a chael amcan bris ganddo i roi mainc newydd yn ei lle.